# Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i Adroddiad Argymhellion Sesiynau Datblygu Celfyddydau Ieuenctid

## *Cefndir*

Ym mis Tachwedd 2020, ysgrifennodd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (CCIC) a Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru (RhCIC) at Gyngor Celfyddydau Cymru, yn amlinellu pryderon sylfaenol am ddyfodol y sector Celfyddydau Ieuenctid yng Nghymru; yn ymwneud yn bennaf ag effaith ddinistriol Covid-19 ar bobl ifanc yng Nghymru a'r sector Celfyddydau Ieuenctid. Roedd y llythyr yn tynnu sylw at y diffyg hanesyddol o adnoddau ar gyfer y Celfyddydau Ieuenctid, yn cyfeirio at effaith y pandemig ar les pobl ifanc a'u dyheadau ar gyfer gyrfaoedd yn y celfyddydau yn y dyfodol, a'r diffyg llais y mae pobl ifanc wedi'i gael mewn trafodaethau yn ystod y pandemig.

Ym mis Mawrth 2021, mewn ymateb i'r pryderon cyffredin hyn, gwahoddodd Cyngor Celfyddydau Cymru CCIC a RhCIC i gynnal cyfres o dair sesiwn ymgynghori ar-lein gyda phobl ifanc, sefydliadau celfyddydau ieuenctid, ac ymarferwyr. Cyflwynwyd canfyddiadau ac argymhellion y sesiynau ymgynghori hyn i Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Medi 2021.

## *Ymateb i'r adroddiad*

Rydym yn croesawu'r canfyddiadau yn yr adroddiad ac am gydnabod y gwaith a wnaed gan CCIC a RhCIC wrth gydweithio â phobl ifanc i archwilio'r materion a dod i ystod gynhwysfawr o ganfyddiadau ac argymhellion pwysig.

Mewn ymateb byddwn yn ymrwymo i barhau i weithio mewn partneriaeth â phobl ifanc a'r sector celfyddydau ieuenctid i ddod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion a godwyd, a thrwy wneud hynny, gwella cyfleoedd a phrofiadau pobl ifanc a'u hymgysylltiad â'r celfyddydau. Rydym hefyd yn cydnabod nad ar y bobl ifanc y mae'r cyfrifoldeb i gyflawni hyn fel y nodir yn yr adroddiad, ac mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i roi canfyddiadau'r adroddiad hwn ar waith wrth symud ymlaen.

Rydym yn llwyr gefnogi cyhoeddi'r adroddiad ac wedi gwahodd pobl ifanc i gymryd rhan mewn ymateb yn greadigol i ganfyddiadau allweddol yr adroddiad, ac wedi hynny comisiynu Off Ya Trolley a oedd yn rhan o'r sgyrsiau hyn i greu Stori Sain. Rydym wedi cyhoeddi'r gwaith hwn ochr yn ochr â'n hymateb.

# Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i'r camau gweithredu canlynol:

Cefnogi a symud ymlaen gyda'r gwaith o sefydlu model neu fodelau addas ar gyfer rhwydwaith celfyddydau i bobl ifanc, gan sicrhau bod pobl ifanc a'r sector celfyddydau ieuenctid wrth galon ei sefydlu a'i ddylunio.

Buddsoddi mewn datblygu rhaglen ariannu i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad at y potensial i ddod yn arweinwyr creadigol yfory.

Sefydlu cyswllt rhwng y rhwydwaith pobl ifanc ac ein Cyngor.

Recriwtio Cymdeithion Ifanc i weithio gyda ni i:

- dylunio a datblygu cynllun a ariennir gan y Loteri gyda'r nod o gefnogi amrywiaeth o brosiectau a gweithgareddau celfyddydol ieuenctid y bydd pobl ifanc yn gallu gwneud cais amdanynt yn ogystal â sefydliadau celfyddydol
- ein helpu i sicrhau bod ein prosesau yn hygyrch ac yn gyfeillgar
- gweithredu fel penderfynwyr sy'n ymwneud â'n prosesau asesu

Hoffai Cyngor Celfyddydau Cymru ddiolch i Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (CCIC) a Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid Cymru (RhCIC) am gyd-hwyluso â phobl ifanc, i sefydliadau celfyddydol ieuenctid ac ymarferwyr am lunio'r adroddiad hwn a'r cyfres o argymhellion. Dymunwn hefyd ddiolch i'r hwyluswyr, yr hwyluswyr ieuenctid, y bobl ifanc ac aelodau unigol o sefydliadau ledled Cymru a fynychodd y tair sesiwn ymgynghori i fynegi eu lleisiau.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government